



Haf 2011 – Eciwmeniaeth Allblyg

Mae llawer o amser ac egni Cytûn wedi'i gyfeirio'n ddiweddar ar dystiolaethu i'r ffydd Gristnogol, cydaddoli a chynnig gofal bugeiliol. Bu hyn yn ffynhonnell o galonddid mawr i ni i gyd. Ar anterth ein tymor prysur dros yr haf rydym yn gofyn am eich cefnogaeth a'ch gweddïau.

Digwyddiadau Cenedlaethol

Yr adeg hon o'r flwyddyn mae Cytûn yn galluogi eglwysi ac enwadau Cymru i dystiolaethu i'r Ffydd Gristnogol. Rydym yn gwneud hynny'n bennaf ym mhrif wyliau cenedlaethol Cymru: Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yn Abertawe eleni, yn canolbwyntio ar blant ac ieuenctid; y Sioe Frenhinol gyda'i phwyslais ar faterion gwledig; a'r Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam, yn rhoi proffil i ddiwylliant a'r iaith Gymraeg.

Diolch i waith da Rhian Linecar a'r timau cefnogi o eglwysi ac enwadau Cytûn, roedd ein tystiolaeth yn Eisteddfod yr Urdd a'r Sioe Frenhinol yn llwyddiannus dros ben.

Mae'r holl arwyddion yn bositif ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam. Rydym yn gobeithio ac yn gweddïo bod ceisiadau am dros 700 o docynnau ar gyfer addoliad agoriadol y Sul yn y Pafiliwn yn argoeli'n dda ar gyfer yr wythnos gyfan. Unwaith eto, mae Cytûn yn ddyledus i Sasha Perriam am ei gwaith da yn gweinyddu cynlluniau o'r fath. Oni bai am Cytûn, fwy na thebyg ni fyddai mynediad am ddim bellach i'r addoliad allweddol hwn ym mywyd cyhoeddus Cymru.



Eleni, mae Cytûn wedi gallu manteisio ar sgiliau Eurig Roberts yn gwella ein gwefan ac yn darparu mynediad hawdd i'r rheiny a oedd am gael gafael ar docynnau a gwybodaeth am yr Eisteddfod. Dylai'r rhai hynny sydd ag iPhone gadw golwg ar yr app iSteddod er mwyn darganfod yr holl wybodaeth am babell Cytûn yn yr Eisteddfod.

Eleni, mae'n edrych yn debyg y bydd miloedd yn dod i ddigwyddiadau a gefnogwyd gan Cytûn neu a drefnwyd gennym, er mwyn: cael gafael ar adnoddau Cristnogol o ansawdd da, mwynhau cyfeillach, myfyrio gyda'n gilydd ac addoli. Mae plant wedi mwynhau paentio wynebau a gemau hwyliog yn enwedig yn Eisteddfod yr Urdd. Bu hefyd yn bleser gweithio

ochr yn ochr â thîm caplaniaeth yr eglwysi yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. Mae'r cydweithio hwn yn dangos bod ymdrechion eciwmenaidd yr eglwysi, yn ufudd i orchymyn Crist, ymhell o fod yn farwaidd.



Materion Cyhoeddus

Mae Cytûn wedi parhau i ganolbwyntio ar drafferthion yr eglwys a erlidiwyd a materion ymfudo rhyngwladol. Ar hyn o bryd, mae Cytûn yn darparu'r gadeiryddiaeth ar gyfer Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru sy'n goruchwylio materion ynghylch ymfudo, ceisio lloches, masnachu mewn pobl a chydlyniant cymdeithasol. Gwnaed rhywfaint o gynnydd wrth alluogi Cymru i ddod yn Genedl Noddfa gyntaf y DU.

Gofynnwyd i eglwysi Cymru i weddio yn benodol dros gymuned Gristnogol Iraq. Bu'n fraint i Cytûn gydweithio'n agos ag Iraqi Christians in Need (ICIN). Ers rhyfel Iraq yn 2003 a chwymp Gwladwriaeth Iraq, mae rhai carfannau eithafol wedi targedu'r gymuned Gristnogol. Mae lladdedigaethau a brawychu wedi'u gyrru o'u cartrefi ac mae nifer fawr wedi diweddu fel ffoaduriaid mewn gwledydd cyfagos neu wedi'u hadleoli o fewn Iraq. Ffurfiwyd ICIN er mwyn helpu Cristnogion anghenus Iraq (o bob enwad, Catholig, Uniongred ac eraill...) ac er mwyn codi ymwybyddiaeth o'u ffawd yng ngwledydd y gorllewin.



Mae'n ymddangos yn bell yn ôl erbyn hyn, ond chwaraeodd Cytûn ran allweddol wrth sicrhau cynnal ac anrhydeddu safle ffydd yn y seremonïau i agor y Cynulliad Cenedlaethol eleni. Mynegodd y Llywydd ei diolchgarwch am y rhan i ni ei chwarae yn cydlynu "Gwynnos y Byrllysg" yn canolbwyntio ar yr amgylchedd, cyfle cyfartal a hawliau dynol. Cafodd y digwyddiad ei alw'n "llwyddiant

ysgubol". Cafodd ehangder cymunedau ffydd prif ffrwd Cymru eu cynrychioli ochr yn ochr â'r traddodiadau Cristnogol arwyddocaol gan gwmpasu'r credoau Catholig, Esgobol, Rhyddion, Eciwmenaidd ac Efengylaidd.

Mae Geraint Hopkins wedi parhau i oruchwylio gwaith Llywodraeth Cymru ar ran Cytûn. Yn ddiweddar, paratôdd set o nodiadau cynhwysfawr y gellir eu lawr lwytho o'n gwefan.



Materion Ffydd a Threfn

Yn ogystal â'i gwaith yn trefnu tystiolaeth Cytûn mewn digwyddiadau cenedlaethol, bu Rhian yn llywio a chefnogi'r gwaith sylweddol sydd ar droed nawr gan Gomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol. Gwnaed cynnydd wrth adolygu gwasanaeth Cymun Bendigaid 1981 ac mae gwaith arloesol ar rannu

gweinidogaeth yn y dyfodol hefyd mewn llaw. Y gobaith yw y bydd gwasanaeth Cymun Bendigaid newydd y Comisiwn ar gael ar gyfer yr Ymgynulliad sydd i'w gynnal yn Aberystwyth ar 13 Hydref 2012.

Cefnogaeth ar gyfer Cynghorau Lleol a Rhanbarthol

Arweiniodd Rhian weithdy ym Mangor ym mis Gorffennaf o dan y teitl "Symud ymlaen o Sylfaeni Cadarn". Bwriad y diwrnod oedd myfyrio ar y daith eciwmenaidd ac archwilio posibiliadau ar gyfer cydweithio lleol yn y dyfodol. Rhoddwyd cefnogaeth hefyd i'r gymuned Gristnogol leol yn: Trehill, Rhisga, Wrecsam, Trecynon, Crughywel, Efail Isaf, Casnewydd, Pont-y-clun, Caerdydd a Phontypridd.

Cwrs Croeso i Gymru

Bu Geraint Hopkins yn weithgar yn trefnu'r cwrs Croeso i Gymru eleni. Mae Croeso i Gymru yn gwrs hyfforddi preswyl ar gyfer gweinidogion sy'n trosglwyddo i Gymru o rannau eraill o'r DU neu ymhellach i ffwrdd. Bydd yn cael ei gynnal o ddydd Mercher 19eg hyd ddydd Gwener Hydref 21ain 2011 yng Ngholeg Mihangel Sant, Llandaf, Caerdydd. Pris y cwrs yw £190 yr un. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Geraint Hopkins yn Swyddfa Cytûn.

Cymorth Cristnogol

Mae Cymorth Cristnogol yn ymateb i argyfwng bwyd Dwyrain Affrica ac wedi lansio apêl argyfwng er mwyn helpu pobl sydd wedi'u heffeithio ar draws y rhanbarth. Mae Cytûn yn gwbl gefnogol i'r apêl hon. Mae £240,000 cychwynnol wedi'i ryddhau ar gyfer ymateb di-oed, a bydd gwaith Cymorth Cristnogol yn cael ei helaethu wrth i'r argyfwng ddwysáu ar draws y rhanbarth. Rhowch nawr os gwelwch yn dda er mwyn helpu Cymorth Cristnogol i gyrraedd y rhai mwyaf anghenus. Am ragor o wybodaeth, edrychwch ar wefan Cymorth Cristnogol: <http://www.christianaid.org.uk/>

Yr Archesgob George Stack

Cafodd eglwysi Cytûn eu cynrychioli yng Ngorseddiad yr Archesgob Stack a orseddwyd fel seithfed Archesgob Caerdydd ar ddydd Llun 20fed o Fehefin yn Eglwys Gadeiriol Fetropolitan Dewi Sant, Caerdydd. Rydym yn croesawu'r Archesgob George ac yn gweddio drosto a'r Archesgobaeth. Roedd yn dda gweld Peter Smith yn y Gorseddiad hefyd. Bydd yntau hefyd yn parhau yn ein gweddïau.

Cyngor Cristnogol Norwy

Yn dilyn y digwyddiadau trasig ar Ynys Utoeya, mae Patrick Coyle, Cadeirydd Cytûn, wedi anfon ein cydymdeimlad dwysaf at Gyngor Cristnogol Norwy. Mae Cyngor Cristnogol Norwy yn un o lond llaw o gyrrff eglwysig cenedlaethol yn y byd sy'n cynrychioli holl draddodiadau Cristnogol y wlad, hynny yw traddodiadau hanesyddol Protestannaidd, Anglicanaidd, Catholig, Uniongred, Efengylaidd, Pentecostalaidd a Charismataidd.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cytûn 2011

Dim ond nodyn sydyn i'ch atgoffa unwaith eto y bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cytûn yn cael ei gynnal ar Dachwedd 1af, 2011, o 11.30am yng Nghanolfan Gymuned Hope, Y Drenewydd, SY16 1JD. Gofynnwn i'r holl gynghorau lleol a rhanbarthol eglwysi sydd am fod yn aelodau o Grŵp Galluogi Cytûn i roi gwybod i swyddfa Cytûn erbyn diwedd Medi fan bellaf. Bydd enwebiadau'n cael eu prosesu drwy gynnis arbennig.

Pob Bendith,



Y Parchedig Aled Edwards OBE Prif Weithredwr Cytûn



Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru, 58 Richmond Road, Caerdydd CF24 3UR 029 2046 4375 post@cytun.org.uk Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng nghymru a Lloegr | Rhif: 5853982 | Enw Cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestrdig | Rhif: 1117071